

No.

PWYLLGOR CRAFFU DYSGU A DIWYLLIANT

Cofnodion cyfarfod anghysbell a gynhaliwyd ar 8 Medi, 2022.

Mae'r Agenda ar gael [yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar gael [yma](#).

Yn Bresennol: Y Cynghorydd R.R. Thomas (Cadeirydd); Cynghorydd H.M. Payne (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr A. Asbrey, E.J. Goodjohn, W.A. Hennessy, N.P. Hodges, J. Lynch-Wilson, N.B. Marshallsea, J.M. Norman a E. Penn

Aelodau cyfetholedig: Dr. M. Price (Yr Eglwys Gatholig) a L. Barrowclough (Rhiant-lywodraethwr – Sector Cynradd)

Hefyd yn bresennol: Cynghorwyr L. Burnett (Arweinydd Gweithredol ac Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau), R.M. Birch (Aelod Cabinet dros Addysg, y Celfyddydau a'r Gymraeg) a E. Williams (Aelod Cabinet dros Gofal Cymdeithasol ac Iechyd).

247 CYHOEDDIAD -

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngwrwyd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol."

248 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd y rhain gan Gynghorwyr W. Gilligan a R.E. Godfrey, R. Morteo ((Yr Eglwys yng Nghymru) a G. Scott (Addysg Gymraeg).

249 COFNODION –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Gorffennaf, 2022 fel cofnod cywir.

250 DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

No.

251 CYNGOR BRO MORGANNWG: CALENDR PERFFORMIAD BLYNYDDOL 2022/23 (CYF) –

Cafodd y cyfeiriad gan y Cabinet ar 7 Gorffennaf 2022 ei gyflwyno gan y Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol.

Roedd Atodiad A i'r adroddiad yn cynnig dull o ymgysylltu ag Aelodau ar Fframwaith Rheoli Perfformiad y Cyngor drwy'r Calendr Perfformiad Blynyddol o weithgareddau er mwyn datblygu eu sgiliau a'u gwybodaeth a chryfhau eu hymwneud â llunio a mireinio'r cynlluniau, adroddiadau a phrosesau allweddol a fyddai'n eu cefnogi yn eu rôl allweddol o asesu a oedd y Cyngor yn cyflawni ei Amcanion Lles, sicrhau gwerth am arian a gwella lles ei dinasyddion.

Yn dilyn cyflwyniad y Swyddog gofynnodd y Cadeirydd a oedd y Cyfarwyddwr yn fodlon â'r broses Hunan-Asesu, ac a oeddent yn gweld unrhyw botensial i wella gwaith o'r fath. Tynnodd y Cyfarwyddwr sylw at y ffaith mai'r adroddiad gerbron y Pwyllgor oedd yr Adroddiad Hunanasesu Blynyddol cyntaf a gynhyrchwyd dan ddeddfwriaeth newydd, a bod disgwyl y byddai elfen o ddysgu wedi i'r broses gael ei chwblhau; pan fyddai modd cynnal dad-briffio, a gellid adfyfrio ar ddulliau Awdurdodau Lleol eraill o adrodd Hunan-Asesu Blynyddol. Ychwanegodd y Cyfarwyddwr ei fod wedi bod yn ddull gwerth chweil o Hunan-Asesu ym mhwm Cyfarwyddiaeth Cyngor Bro Morgannwg, a bod gweithio ochr yn ochr ag Awdurdodau Lleol eraill i ddeall sut yr oedden nhw hefyd yn gwneud y gwaith hwn wedi cael ei wneud.

Diolchodd y Cynghorydd Payne i'r Cyfarwyddwr am y cyflwyniad ac ychwanegodd eu bod yn croesawu cyfleoedd i aelodau'r pwyllgor fod yn rhan o'r broses Hunan-Asesu. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr fod cyfle o'r fath wedi bod i bob Aelod Etholedig yn ystod Toriad y Cyngor ac y byddai cyfle tebyg yn cael ei drefnu ar gyfer 2023.

ARGYMHELLWYD – Y dylid nodi Calendr Perfformiad Blynyddol Bro Morgannwg 2022/23 a'r dull arfaethedig o ymgysylltu ag Aelodau yn ystod y flwyddyn i lunio a mireinio'r Calendr Perfformiad Blynyddol a phrosesau, cynlluniau ac adroddiadau cysylltiedig.

Rheswm dros yr argymhelliad

Gan ystyried cynnwys adroddiad y Cabinet i fodloni'r gofynion perfformiad newydd yn unol ag Adran 114 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

252 ADRODDIAD MONITRO BLYNYDDOL SAFONAU IAITH CYMRU 2021-22 (CYF) –

Cafodd y cyfeiriad gan y Cabinet ar 21 Gorffennaf 2022 ei gyflwyno gan y Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol.

Roedd yr adroddiad Cabinet a gyfeiriwyd yn tynnu sylw'r Pwyllgor at gynnydd y Cyngor yn erbyn Safonau'r Gymraeg (Atodiad 1) a Strategaeth Hyrwyddo'r Cyngor

No.

ar gyfer Bro Morgannwg (Atodiad 2) am 2021/22. Roedd yn crynhoi'r prif feysydd lle gwnaed cynnydd a rhoddodd ddiweddariad blynyddol, sy'n ofynnol gan Gomisiynydd y Gymraeg.

Yn dilyn cyflwyniad y Cyfarwyddwr, fe wnaeth yr Aelod Cabinet dros Addysg, y Celfyddydau a'r Gymraeg dynnu sylw at y budd o ganiatáu cyfle i staff Cyngor Bro Morgannwg ddysgu Cymraeg yn ystod y diwrnod gwaith. Nodwyd hefyd bod adroddiad ar Safonau'r Gymraeg wedi ei roi i Lywodraeth Cymru, a bod unrhyw awgrymiadau o ran gwella wedi eu gweithredu'n llwyddiannus.

Mewn perthynas ag ymholiad gan y Cynghorydd Hodges, cadarnhaodd y Cyfarwyddwr nad oedd goblygiadau ariannol i'r adroddiad ei hun, ond roedd gan y Cyngor nifer o gyllidebau i gefnogi hyrwyddo'r Gymraeg ymhlith staff ac Aelodau Etholedig.

Dywedodd y Cynghorydd Goodjohn eu bod wedi bod yn cymryd rhan yn y gwersi Cymraeg fel y soniwyd amdano yn yr adroddiad, ac roedden nhw'n gyfle gwych i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg.

Mewn ymateb i ymholiad gan y Cadeirydd, dywedodd y Cyfarwyddwr y byddai aelodau staff yn ymgymryd â dysgu'r Gymraeg ar eu cyflymder eu hunain. Ond byddai cyflymder y dysgu'n cael ei fonitro'n agosach lle roedd gofynion penodol am y Gymraeg ar gyfer swydd staff.

ARGYMHELLWYD – Y dylid nodi Adroddiad Monitro Blynyddol y Gymraeg ar gyfer 2021-22, sydd ynghlwm yn Atodiad 1 i adroddiad y Cabinet, a'r Diweddariad ar Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg, fel y nodir yn Atodiad 2 i adroddiad y Cabinet.

Rheswm dros yr argymhelliad

Ystyried cynnwys adroddiad y Cabinet i gwrdd â'r ddyletswydd adrodd i Gomisiynydd y Gymraeg fel rhan o Safonau'r Gymraeg.

Gohiriwyd y cyfarfod hwn am 18:33 yn ystod dadl yr Aelodau ar Eitem 6 ar yr Agenda yn dilyn y cyhoeddiad cyhoeddus am farwolaeth y Frenhines Elizabeth II a bydd yn cael ei ailgynnull ar ddyddiad i'w gadarnhau.